0121

Cofnodion o gyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd yn y Neuadd Sirol, Llandeilo ar ddydd Mercher 12fed Tachwedd am 8.21 pm.

Presennol: *Cynghorwyr:* Cyng. D. A. J. Jones (Maer), Cyng. K. Day (Cadeirydd), Cyng. S. Burge.

Arall: Colette Paterson (Clerc y Dref), R. Huw Griffiths (Swyddog Technegol)

5904: Ymddiheuriadau am absenoldeb: Cyng. I. Gwyn, Cyng. C. Jenkins, Cyng. G. Vaughan Jones.

5905: Materion Cynllunio: Mae'r Cyngor wedi derbyn y Ceisiadau canlynol am Drwyddedau a throsglwyddo trwyddedau.:

Enw / O	***Trwydded ar gyfer:***
C. S. C.	Adloniant i'r cyhoedd ar gyfer Yr Angel, Stryd Rhosmaen, Llandeilo.
Cyfreithiwr Huw James	Trosglwyddo trwydded Cyfiawnder i The Red Fort, Stryd Rhosmaen, Llandeilo
Morris Roberts	Trosglwyddo trwydded Cyfiawnder i The Cottage Inn, Pentrefelin, Llandeilo. Nodwyd fod y Cottage Inn y tu allan i Ffiniau'r Dref. Clerc y Dref i hysbysu Morris Roberts.
Hugh Williams Son	Trosglwyddo trwydded gwirod ar gyfer Gwesty'r Castle.

5906: Mae'r Cyngor wedi derbyn y Materion Cynllunio canlynol:

0122

Anheddau newydd, Adeiladau'r Banc, Llandeilo	Sylwch fod y rhain i'w galw: 15a a 15b Adeiladau'r Banc	
TG/04972	Cais am Ganiatâd Cynllunio llawn. Ystafell wydr yn 23, Ffordd Caerfyrddin, Llandeilo	Dim Gwrthwynebiad
TG/05145	Cais am Ganiatâd Cynllunio llawn. Datblygiad preswyl ym mlot 14 Llys Pencrug, Llandeilo.	Dim Gwrthwynebiad
TG/04635	Cymeradwyo Amrywio'r Amod Cynllunio – ymestyn y cyfnod cadw.	
TG/04164	Caniatáu Caniatâd Cynllunio i addasu adeiladau yn Fragdy newydd, swyddfeydd a lle i storio.	
Gwaith arfaethedig i Goed ym Mharc Dinefwr.	Coed a ddiogelir o dan TPO – gwaith i'w wneud, torri canghennau marw sy'n hongian drosodd.	Dim Gwrthwynebiad
TG/04978	Cais am ganiatâd cynllunio oddi wrth The Co-op Llandeilo i osod dysgl loeren ar gyfer ATM.	Roedd y Pwyllgor o'r farn y byddai'r ddysgl loeren hon yn amharu ar olwg y lle pe bai'n cael ei lleoli yn y man a argymhellir. Barn y Pwyllgor yw y dylai'r loeren gael ei lleoli mewn man arall fel na ellir ei gweld mor glir.

5907: Mae'r Pwyllgor hefyd wedi derbyn rhybudd o gyfarfod safle cynllunio yn Nhafarn y Ffarmers. Mae'n rhoi rhybudd o gyfarfod i'w gynnal ar y 23ain Hydref 2003. Roedd y rhybudd wedi cyrraedd rhwng cyfarfodydd Cynllunio.

Y Clerc i ofyn i'r Swyddfa Gynllunio am ebostio'r materion cynllunio yn uniongyrchol ati, Cadeirydd Cynllunio a Dibenion Cyffredinol i helpu gyda'r broblem hon.

0123

0122
0123

5908: Roedd y Pwyllgor wedi derbyn rhybudd o seminar ar Ailgylchu a Gwastraff i'w gynnal ddydd Mercher 19eg Tachwedd 2003 yng Nghanolfan Halliwell, Coleg y Drindod, Caerfyrddin.

Cyng K. Day (Cadeirydd Cynllunio a Dibenion Cyffredinol) a Colette Paterson (Clerc y Dref) i fynychu.

5909: Y Llwybr Troed wrth gefn Teras Tomos. Ymhellach i'r ohebiaeth a dderbyniwyd ac a drafodwyd yn y Cyngor Llawn. Mae'r Pwyllgor o'r farn nad yw'n gyfrifol am y llwybr troed hwn. Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb o'r Cyngor Trefol i Fwrdeistref Dinefwr ac yna i'r Cyngor Sir presennol.

Y Clerc i ysgrifennu at M. Cresci yn cwestiynu cyfrifoldeb y Cyngor am y llwybr troed dan sylw gan nodi mai ffordd oedd yn wreiddiol a oedd yn rhoi mynediad i Deras Tomos.

5910: Materion Cludiant a Goleuo: caniatâd i godi colofnnau er mwyn gosod y goleuadau Nadolig ychwanegol arnynt ar draws Stryd y Brenin. Y gobaith yw y bydd hyn yn cael ei wneud ar gyfer Nadolig 2004.

Y Clerc i ysgrifennu at M. Cresci o wasanaethau technegol C. S. C er mwyn gofyn iddynt unwaith yn rhagor am ganiatâd am rywbeth i ddal cortyn y goleuadau er mwyn eu clymu i'r colofnnau golau presennol.

5911: Arddangosfa Tân Gwyllt. Wnaeth y Maer longyfarch a diolch i Cyng. G. Price, Cyng. Vaughan Jones, Cyng. Jenkins, Cyng. Davies a phawb a wnaeth sicrhau bod yr arddangosfa Tân Gwyllt yn un llwyddiannus iawn. Wnaeth nifer dda o bobl fynychu'r digwyddiad ac mae pobl y gymuned wedi ei ganmol.

5912: Gohebiaeth: Roedd Clerc y Dref wedi derbyn llythyr oddi wrth The Woodland Trust (Yr Ymddiriedolaeth Coetir) mewn perthynas ag ymestyn Coed Tregib. Roedd y Pwyllgor o'r farn ei fod yn brosiect gwerthfawr, a fyddai'n cyd fynd gyda ac yn gwella'r cynlluniau cyfredol ar gyfer gwella Teithiau Treftadaeth a Llwybrau Troed.

Y Clerc i ysgrifennu llythyr o gefnogaeth i'r Cais gan yr Ymddiriedolaeth Coetir am nawdd ar gyfer y prosiect hwn.

Teimlwyd hefyd y gallai'r Cyngor ofyn am gymorth oddi wrth yr Ymddiriedolaeth Coetir mewn perthynas â'r Cynllun Plannu ar gyfer y safle yn Stryd y Bont.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00 pm.